**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr CEI NEWYDD a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 21 Mawrth 2024**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd), Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans a'r Cynghorydd Matthew Vaux

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Jennifer Davies, Carl Rich, Damian Lawson, Martin Draper, Martin Seal, Brett Stones, Norman Robertson, Mike Masters, Roger Couch, David Fiona Barnes, Chris Seal, Chris Williams, Morgan Williams a Grace Williams

(6.30pm – 7:30pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023**
   CYTUNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 yn gywir.

3. **Diweddariad gan y Gwasanaeth Harbyrau**
   - Cyflwynodd Rheolwr yr Harbyrau gynllun diagramegol o'r trefniadau dros dro o ran Cymhorthion Mordwyo (AtoNs) a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith Amddiffyn yr Arfordir yn Aberaeron. Pwysleisiwyd na ddylid ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo. Byddai copi o'r diagram yn cael ei ddosbarthu ar ffurf Hysbysiad Lleol i Forwyr maes o law. Awgrymwyd y gallai'r Clwb Hwylio hefyd arddangos y diagram a dywedodd Rheolwr yr Harbyrau wrth y Clwb Hwylio y byddai'n barod i ddod i siarad â'r aelodau pe byddent yn teimlo y byddai hynny'n fuddiol.

   - Byddai arwyddion yn cael eu gosod i hysbysu'r cyhoedd bod harbwr Cei Newydd yn harbwr gweithredol ag iddo arwynebau anwastad a pheryglon posibl eraill.

   - Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau fod Trinity House wedi archwilio prosesau'r Cyngor o ran Cymhorthion Mordwyo (AtoNs) a'i fod wedi canfod bod y prosesau hyn yn briodol.

   - Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau y byddai cyfleusterau rheoli gwastraff yr harbwr ar gael i ddefnyddwyr hamdden o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

4. **Rhestr Aros am Angorfa**

Cytunwyd i nodi’r rhestr aros am angorfa fel y’i cyflwynwyd. Cadarnhaodd y swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud i ddiwygio'r rhestr fel y gellid cynnwys rhagor o fanylion e.e. statws preswyl, math o gychod a maint y cychod.

Nodwyd hefyd y byddai'r rhestrau aros yn awr ar agor i ymgeiswyr newydd ac na fyddai'r ffioedd i newydd-ddyfodiaid ar gyfer ymuno â'r rhestrau aros bellach yn cael eu defnyddio fel credyd tuag at ffioedd angori'r flwyddyn gyntaf ar ôl i’r angorfa gael ei dyrannu iddynt.

**5. Cynnal a Chadw a Glanweithdra Cyffredinol**

- Roedd y rhaglen archwiliadau wedi nodi bod angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ac atgyweirio ar rai o asedau'r harbyrau, ac roedd y rhain wedi'u hystyried a'u blaenoriaethu. Byddai trefniadau caffael yn cael eu rhoi ar waith a byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd a'r gyllideb a oedd ar gael.

- Cynhaliwyd ymarfer caffael i gyflawni'r gwaith oedd angen ei wneud ar yr ysgolion a rhagwelwyd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

- Roedd disgwyl i archwiliad o wal yr harbwr a dolenni sefydlog yr angorfeydd ar y llithrfa gael ei gynnal er mwyn nodi unrhyw waith cynnal a chadw y gallai fod angen ei wneud.

- Dywedwyd bod Cyngor Tref Cei Newydd wedi penodi Glanhawr Stryd yn ddiweddar a chontractwr i dorri porfa.

  Dywedwyd bod Cyngor Tref Cei Newydd a *Working 4 New Quay* wedi gwneud gwaith dacluso yn ddiweddar. Nododd rhai o’r aelodau y byddent yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.

  Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau y byddai Rheolwr Cynorthwyol yr Harbyrau hefyd yn casglu sbwriel o amgylch yr harbwr fel rhan o'i gyfrifoldebau.

- Gofynnodd un o’r aelodau beth oedd hanes y rhaca tywod a oedd, yn ôl pob tebyg, wedi cael ei ddefnyddio ar y traeth yn flaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Vaux ei fod yn cofio bod rhai problemau wedi codi a oedd wedi golygu nad oedd modd ei ddefnyddio ac efallai y byddai Cliff Bates o’r Gwasanaeth Twristiaeth yn gallu cadarnhau hyn. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau y byddai'n cysylltu â Cliff Bates i weld a oedd ganddo unrhyw wybodaeth am y rhaca tywod.

- Gofynnodd Chris Seal am ddiweddariad ynghylch ei gais am adroddiad ar gyflwr y prif gadwyni. Cadarnhaodd Rheolwr yr Harbyrau fod ymateb eisoes wedi ei ddarparu iddo ar y mater hwn a oedd yn cadarnhau nad oedd yna adroddiad ffurfiol ynghylch eu cyflwr.

Dywedwyd bod cadwyni rhai o ddeiliaid yr angorfeydd wedi cael eu torri pan wnaed y gwaith i'r prif gadwyni. Gofynnwyd a fyddai modd i ddeiliaid yr angorfeydd gael gwybod pe byddai hyn yn digwydd yn y dyfodol. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau nad oedd wedi cael gwybod am unrhyw honiadau o ddifrod i gadwyni deiliaid yr angorfeydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ac nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw gadwyni wedi'u difrodi gan y contractwr. Ychwanegodd y byddai'n disgwyl i'r contractwr ei hysbysu pe bai'n niweidio eiddo'r Cyngor neu eiddo preifat.

- Dywedwyd bod rhai o'r cychod ar yr angorfeydd ar res G yn dod i gysylltiad â'i gilydd o ganlyniad i'r ffaith bod rhai cychod yn rhannu'r un pwyntiau lleoli. Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau fod y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu, ond nododd fod statws rhestredig y pier yn golygu efallai na fyddai modd gosod unrhyw bwyntiau lleoli / dolenni angori newydd.

## 6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr

- Dywedodd Chris Seal ei fod yn anhapus nad oedd y cwestiynau oedd ganddo wedi'u cynnwys fel eitemau ffurfiol ar gyfer y cyfarfod hwn ac aeth ati i'w codi. Darllenwyd y cwestiwn canlynol i bawb yn y cyfarfod:

  'Yn dilyn yr Ymgynghoriad Ar-lein a gynhaliwyd yn ddiweddar, pam na wnaed newidiadau radical i'r Polisi Rheoli Harbyrau o ystyried bod 85% o'r ymatebwyr wedi gwrthod y polisi drafft. Pwy wnaeth y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r polisi er gwaetha'r gwrthwynebiad?'

  Wrth ymateb, cadarnhaodd y Swyddogion fod manylion llawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Fel rhan o'r broses ddemocrataidd, gall y Pwyllgor Craffu perthnasol wneud argymhellion i'r Cabinet (fel y digwyddodd yn achos y Polisi Rheoli Harbyrau) ond yn y pen draw, y Cabinet sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch a ddylid derbyn yr argymhellion hyn (fel y digwyddodd yn achos yr argymhellion ynghylch y Polisi Rheoli Harbyrau) a'r penderfyniadau ynghylch cynnwys unrhyw bolisi a'r ffordd y mae'n cael ei roi ar waith.

- Hefyd, cododd Mr Seal fater arall sef y gallu i etifeddu'r hawl i ddefnyddio angorfeydd hamdden, a hynny ar ôl i'r hawl honno gael ei thynnu o'r Polisi Harbyrau. Dywedodd Mr Seal nad oedd yn cytuno â'r newid hwn. Bu i'r swyddogion gydnabod nad oedd pob un o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'r holl newidiadau a wnaed i'r Polisi ond bod y Cabinet wedi penderfynu rhoi'r Polisi diwygiedig ar waith. Y rheswm dros wneud y newid hwn oedd y byddai'n sicrhau bod y rheini ar y rhestr aros yn medru cael gwell mynediad i'r angorfeydd, ac roedd hyn eisoes wedi'i amlinellu yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet

- Gofynnodd Chris Seal am ymateb i gwestiwn arall yr oedd wedi ei ofyn. Roedd ymateb eisoes wedi'i ddarparu iddo y tu allan i'r cyfarfod ond roedd Mr

DRAFT

Seal am i'r ymateb gael ei roi iddo yn y cyfarfod fel y gallai pob aelod o'r Pwyllgor ei glywed.

"Pa wasanaethau a swyddogaethau yn gwmws y mae'r 'Ffi Weinyddol newydd ar gyfer Angori' yn eu hariannu?"

Wrth ymateb, cadarnhaodd y swyddogion nad oedd y ffi yn un newydd. Roedd y ffi yn rhan o'r ffioedd cyffredinol sy'n gysylltiedig â cheisiadau am angorfeydd ac roedd yn cyfrannu at ariannu'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth harbyrau gan gynnwys y tasgau gweinyddol sy'n ymwneud â cheisiadau am angorfeydd. Yn y pen draw, pe na bai'r ffi hon yn bodoli, byddai'r ffi fesul metr yn cael ei chynyddu er mwyn cynhyrchu'r incwm a oedd yn cael ei chreu ar hyn o bryd gan yr elfen hon o'r strwythur codi tâl.

- Gofynnwyd paham oedd hysbysiadau symud wedi'u rhoi ar y dingis ar y prif draeth. Cadarnhaodd Rheolwr yr Harbyrau nad oedd caniatâd na chytundeb ffurfiol ar gyfer storio'r eitemau hyn ac nad oedd gan y Cyngor fanylion y perchnogion. Dywedodd aelodau'r Clwb Hwylio eu bod yn gwybod pwy oedd y perchnogion ac y byddent yn cysylltu â'r perchnogion. Bu iddynt nodi hefyd eu bod yn siomedig bod yr hysbysiadau hyn wedi'u gosod ar yr eitemau.

  Yn ogystal, cadarnhawyd bod Cyngor Tref Cei Newydd hefyd wedi gofyn am eu symud fel y gellid mynd i'r afael â'r gordyfiant gan leihau'r sbwriel a oedd yn casglu o amgylch y dingis yn ddyddiol yn ystod y cyfnodau prysur.

  Cytunwyd y byddai Rheolwr yr Harbyrau yn cwrdd â Carl Rich o Glwb Hwylio Cei Newydd gyda'r bwriad o nodi lleoliadau posibl eraill ar gyfer storio dingis yn y dyfodol.

- Dywedwyd bod rhywrai wedi ceisio dwyn eitemau yn yr Harbwr ond bod rhywun wedi tarfu arnynt. Gofynnwyd a fyddai'n bosibl cael Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) yn yr Harbwr ai peidio. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd y Cyngor yn darparu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus ac y gallai'r aelodau a Chyngor Tref Cei Newydd ystyried codi'r mater gyda Heddlu Dyfed Powys a oedd yn darparu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus os oeddent yn teimlo bod achos dros wneud hynny. Awgrymodd aelodau'r Clwb Hwylio efallai y byddai modd iddynt ymchwilio i'r posibilrwydd o gael Teledu Cylch Cyfyng ac y bydden nhw'n trafod ymarferoldeb hyn pe na bai dim byd yn dod o'r trafodaethau gyda Heddlu Dyfed Powys.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr hawl i barcio ar y llithrfa i lwytho a gwneud gwaith cynnal a chadw ar y cychod. Dywedodd un o'r defnyddwyr ei fod wedi cael cyfarwyddyd gan aelod o Dîm yr Harbyrau i symud ei gar o'r llithrfa pan oedd yn gwneud gwaith cynnal a chadw i'w dingi. Wrth ymateb, cadarnhaodd Rheolwr yr Harbyrau fod angen cadw'r llithrffordd yn glir er mwyn sicrhau diogelwch ac y gallai defnyddwyr gael mynediad i'r llithrfa i lwytho a dadlwytho cychod wrth iddynt ymgymryd â'r gweithgaredd hwnnw (ni fyddai'r hawl hon yn cynnwys amser i baratoi eu cwch ar gyfer ei lwytho gan y

DRAFT

dylid cwblhau’r gwaith hwn cyn dod â'r cerbyd i'r llithrfa) a byddai angen symud y cerbyd yn syth ar ôl cwblhau'r gweithgaredd.

Gofynnwyd a fyddai modd i bob defnyddiwr ddefnyddio’r man parcio ar y llithrfa a oedd wedi’i dynodi ar gyfer defnyddwyr masnachol fel y gallent lwytho, dadlwytho a gwneud gwaith cynnal a chadw ar eu cychod.  Dywedodd Rheolwr yr Harbyrau y gellid ystyried hyn. Fodd bynnag, roedd tâl yn cael ei chodi am ddefnyddio’r mannau hyn ac efallai na fyddai’r rhanddeiliaid eraill yn cefnogi hyn, gan gynnwys y gweithredwyr masnachol a oedd yn defnyddio’r mannau dynodedig.

.

DRAFT